Pa mor ystyriol o oedran yw fy nghymuned?

Creu Cymru oed gyfeillgar

Gall y pethau sy'n gwneud rhywle yn lle da i fyw ac i weithio ynddo newid wrth i ni fynd yn hŷn.

Mae llawer ohonom yn parhau i fod yn fywiog wrth fynd yn hŷn, tra bod rhai ohonom yn profi arwahanrwydd, unigedd, pryderon ariannol neu iechyd gwael. Gall cynllun cymdogaeth gwael a / neu ddiffyg gwasanaethau arwain at bobl hŷn yn cael eu gwahanu o fewn y gymuned.

Mae'n allweddol ystyried anghenion pobl hŷn i sicrhau bod gennym oll y cyfle i gyflawni'r iechyd, lles a'r ansawdd bywyd gorau bosibl.

- ***Dywedwch wrthym pa mor ystyriol o oedran y credwch chi yw eich cymuned.***
- ***Rhowch sgôr allan o ddeg i bob elfen. Po uchaf yw'r sgôr po agosaf yw eich cymuned i fod yn addas ar gyfer bob oedran. Po isaf, po fwyaf o waith sydd ei angen i'w wneud yn ystyriol o oedran.***
- ***Diffiniwch gymuned yng ngoleuni'r hyn a olyga i chi – eich pentref, maestref, tref neu ddinas.***

Unwaith i chi gwblhau ein Cyfrifiannell Cymuned, anfonwch ef at:

Age Cymru, Llawr Gwaelod,
Mariners House, Trident Court,
Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD

Neu anfonwch gopïau electronig i:
enquiries@agecymru.org.uk

Enw

Cyfeiriad

Rhif Ffôn

E-bost

Hoffwn eich cadw chi'n hysbys o'n gwaith hanfodol. Ticiwch neu cylchwch y meysydd sydd o ddiddordeb i chi:

- Celfyddydau
- Digwyddiadau
- Gwybodaeth a Chyngor
- Gweithgaredd Corfforol
- Ymgyrchoedd
- Codi Arian
- Polisi/Materion Cyhoeddus
- Gwirfoddoli

A hoffech i ni gysylltu â chi, ticiwch neu cylchwch:

Drwy'r post E-bost Rhif ffôn Y cwbl

Gallwch ddatdanysgrifio ar unrhyw adeg.
Ffoniwch 029 2043 1555
anfonwch e-bost at *unsubscribe@agecymru.org.uk*
neu ticiwch / cylchwch y bocs

Cedwir eich manylion ar gronfa ddata ddiogel ac ni rannwn eich manylion gydag unrhyw sefydliadau oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Y Gyfrifiannell Gymunedol

Rhowch sgôr allan o ddeg ar gyfer bob ffactor a restrir isod. Un yw'r sgôr waethaf bosibl a deg yw'r gorau.

1. **Gwasanaethau lleol**
   Pa mor hawdd yw cael mynediad at gyfleusterau neu wasanaethau lleol, e.e. siopau, swyddfa'r post, banciau a llyfrgelloedd o fewn pellter rhesymol i'ch cartref? **/ 10**

2. **Trafnidiaeth Gyhoeddus**
   Pa mor dda yw trafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys trafnidiaeth gymunedol yn eich ardal? **/ 10**

3. **Eisteddleoedd i'r cyhoedd a llefydd i gael gorffwys**
   Pa mor dda yw argaeledd ac ansawdd eisteddleoedd i'r cyhoedd yn eich cymuned, yn arbennig y brif ganolfan, gorsafoedd bws a pharciau? **/ 10**

4. **Toiledau cyhoeddus**
   Pa mor dda yw'r mynediad at doiledau cyhoeddus yn eich ardal leol? **/ 10**

5. **Palmentydd**
   Pa mor dda yw cyflwr y palmentydd yn eich cymuned? A ydynt yn rhydd o dyllau a rhwystrau? A ydynt yn galluogi cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd symud yn rhydd? **/ 10**

6. **Diogelwch cymdogaeth**
   Pa mor ddiogel yw'r strydoedd o fewn eich cymuned (presenoldeb yr heddlu, y golau a lefel y traffig)? **/ 10**

7. **Llefydd i gyfarfod**
   Pa mor dda yw'r llefydd i gyfarfod, treulio amser, ymarfer y corff a dysgu, megis parc, canolfan hamdden, canolfan gymunedol neu neuadd bentref? **/ 10**

8. **Gwybodaeth a chyngor**
   Pa mor hawdd yw cael mynediad at wybodaeth a chyngor yn eich cymuned, megis gan y cyngor, llyfrgell neu sefydliad gwirfoddol? **/ 10**

9. **Gwasanaethau iechyd a chymdeithasol**
   Pa mor dda yw'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn eich ardal chi? **/ 10**

10. **Eich llais**
    Pa mor dda yr ystyrir eich barn ym mhenderfyniadau a chynlluniau cymunedol? **/ 10**

A oes gennych chi fwy o sylwadau yr hoffwch eu mynegi?

Age Cymru, Llawr Gwaelod, Mariners House, Trident Court, Heol East Moors, Caerdydd, CF24 5TD
Rhif ffôn: 029 2043 1555 **E-bost:** enquiries@agecymru.org.uk **Gwefan:** www.agecymru.org.uk
Rhif Cofrestru'r Elusen: 1128436